



Busnes

Rhwydwaith Ein Ffermydd

- ▶ Astudiaeth yn dangos [nad yw godro unwaith y dydd yr un mor broffidiol â dwywaith y dydd ar fferm](#) Clyngwyn, un o ffermydd llaeth Ein Rhwydwaith Ffermydd.
- ▶ Bydd [prosiect ffocws garddwriaeth](#) yn ymchwilio i dyfu gwahanol fathau o godlysiau a grawn ar raddfa cae ar gyfer caffael y sector cyhoeddus, gan gynnwys cyflenwi ysgolion a chartrefi gofal yn Sir Gâr.

Dosbarthiadau Meistr

179 o fynychwyr ar draws **15** Dosbarth Meistr gan gynnwys > Meistr ar Fusnes, Cyfrifoldebau cyfreithiol cyflogwyr o ran staff a gweithwyr, sut mae benthycwyr yn ystyried cyfrifon, a denu a chadw staff da.

Adborth:

“Mae wedi rhoi'r hyder a'r wybodaeth i mi allu rhoi cyfrifon at ei gilydd i helpu i ddeall ym mha feysydd mae ein busnes yn perfformio'n dda, a pha elfennau sydd angen eu gwella.”

“Ardderchog – mae'r cwrs hwn yn bendant wedi rhoi'r cyfarwyddyd a'r hyder i mi gyflwyno newidiadau.”

“Rydw i wedi bod ar nifer o gyrsiau gyda Cyswllt Ffermio erbyn hyn, ond dyma'r cwrs gorau o bell fordd o ran yr hyn yr wyf wedi'i ddysgu. Rwy'n credu bod mynd drwy'r cwrs gyda'ch gliniadur eich hun gyda chefnogaeth eraill ar y cwrs yn helpu i gael y wybodaeth i aros yn eich cof.”

Grwpiau Trafod

Themâu	Nifer y Cyfarfodydd Grwpiau Trafod	Nifer yr oriau Trosglwyddo Gwybodaeth	Unigolion a gefnogwyd
Busnes	29	59.5	118

Engbreiffiau Busnes:

- Olyniaeth
- Rheoli Busnes
- Iechyd a Diogelwch
- Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata
- Elw Fferm Cymharol
- Staffio ac AD

Mentora

- 30** unigolyn
- 106** awr
- 40** sesiwn fentora
- Roedd **13.8%** o'r holl sesiwnau mentora'n ymwneud â'r thema hon

Mae unigolion yn gofyn am wasanaeth mentora ar y pynciau canlynol sy'n ymwneud â busnes



- Gweinyddiaeth a gwaith papur **46**
- Rheoli a Chynllunio Busnes **9**
- Gwerthu uniongyrchol **6**
- TGCh **18**
- Arloesi **1**
- Mentrau ar y cyd **6**
- Datblygu Eiddo **1**
- Ynni Adnewyddadwy **2**
- Defnyddio cŵn defaid **17**
- Twristiaeth **7**

Mae dyfyniadau o ddyddiaduron mentora'n cynnwys:

“Wedi cwrdd â'r mentai i drafod y gweithrediadau busnes presennol - parc carafanau a chynlluniau at y dyfodol ar gyfer caffi a siop fferm. Buom yn trafod yr heriau presennol, manteision ac anfanteision, prisiau, a'r math o gwsmeriaid.”

“Fe wnaethom ail-edrych ar bwyntiau gweithredu blaenorol a'u hasesu yn erbyn y nodau yr oeddem wedi'u gosod ar gyfer y busnes gweryslla, alpacaod, a'r siop fferm.”

“Edrych ar reolaeth y busnes a'r amserlen hyd fis Medi lle mae'r mentai yn cymryd yr awenau'n llawn gan y teulu. Ceisiadau grant a sut i dyfu'r busnes a lleihau'r llwyth gwaith.”

Cymorthfeydd

Cwblhawyd **178** o gymorthfeydd. Roedd pynciau'n cynnwys - Cyllid a chyfrifeg / AD a Rheoli Staff / Perfformiad busnes

Gwasanaeth Cyngori

Nifer yr achosion a gefnogwyd:

- 100** Cynllunio Busnes
- 5** Arallgyfeirio
- 1** Cyngor Carbon
- 1** Ynni adnewyddadwy

Adborth gan ffermwyr:

“Byddwn yn defnyddio'r cyngorydd eto, effeithlon a phroffesiynol iawn”
“Roedd y cyngorydd a'r cwmni'n glir ac yn gefnogol iawn”

Podlediadau - Clust i'r ddaear



Rhifyn 93:

Cyfres Rheoli Staff - Pennod 2: Cytundebau gweithwyr

Garddwriaeth



Cynhaliwyd 14 o ddigwyddiadau Garddwriaeth gan gefnogi 74 unigolyn o 60 busnes gwahanol

Roedd digwyddiadau'n cynnwys:

Cyngorfa Ysgaw ar gyfer cynhyrchiant yn y DU / Ymgorffori amaethyddiaeth amgylchedd wedi'i reoli i'ch model busnes presennol / Gwella effeithlonrwydd mewn systemau cynhyrchu tatws ar raddfa cae / Strategaethau rheoli chwyn mewn busnesau Addurniadol.

Adborth:

"Roedd y cwrs yn ddefnyddiol gan ei fod wedi ein helpu i ddeall sefyllfa bresennol ein rheolaeth gemegol, ac roedd y cyngor o ran peidio â throsglwyddo chwyn neu hadau'n anfwriadol yn ddefnyddiol." (Strategaethau rheoli chwyn)



Cyflwynwyd 42 o sesiynau cymorth busnesau garddwriaeth i 33 unigolyn o 28 busnes

Adborth:

"Roedd y sesiwn yn ddefnyddiol iawn. Roedd yn braf siarad gydag ymgynghorydd ariannol sy'n deall garddwriaeth. Roedd yn atgyfnerthu'r hyn yr oeddem yn ei wybod am y busnes, ac mae wedi rhoi'r sbardun cadarnhaol angenrheidiol i symud ymlaen ac i ehangu. Cafwyd llawer o awgrymiadau defnyddiol yn ystod y sesiwn ac yn yr adroddiad a'r nodiadau dilynol."

"Roedd cymorth a chyngor Erin yn werthfawr iawn, yn enwedig gyda'r cyfryngau cymdeithasol sy'n gallu bod yn heriol. Fe wnaeth hi egluro pobeth yn glir gan wneud awgrymiadau penodol yn seiliedig ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol ein cwmni yn hytrach na chyngor cyffredinol yn unig."

CLYSTYRAU'R GADWYN GYFLENWI

Arweiniodd ein gwaith i gefnogi a datblygu cadwyni cyflenwi rhwng cynhyrchwyr, proseswyr ac adwerthwyr er mwyn annog cyfleoedd ar gyfer twf busnes at sefydlu 8 clwstwr, yn benodol, cynllun caffael cyhoeddus Castell Howell, llysiâu o Gymru i ysgolion, a chynlluniau hyfforddiant yn edrych ar arddwriaeth amaeth-ecolegol. Cefnogwyd 9 busnes ynghyd â rhanddeiliaid mewn 7 digwyddiad hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar lwybrau i'r farchnad a diogelwch bwyd, ynghyd ag achrediad ym maes garddwriaeth. O ganlyniad, rydym hefyd wedi creu modiwl e-ddysgu Diwydrwydd dyladwy ar gyfer tyfwyr ar raddfa fach.

e-ddysgu



85

Cefnogwyd 139 o unigolion o 99 busnes. Roedd y mwyafrif o'r sector Amaethyddiaeth – Biff. Cwblhawyd 161 o fodiwlau.

Modiwl	Unigolion a gefnogwyd
e-ddysgu: Uned Orfodol: Iechyd a Diogelwch - Rheoli Risg mewn Coedwigaeth a Ffermio	116
e-ddysgu: Uned Orfodol: Hanfodion Busnes Llwyddiannus	21

Ceir 20 o fodiwlau e-ddysgu ar gael ar BOSS erbyn hyn. Mae'r modiwlau newydd a ychwanegwyd yn cynnwys:

e-ddysgu: Trosolwg o Wytwnch a Chynhyrchu

e-ddysgu: Effeithlonrwydd Ynni ac Arbedion Tanwydd ar Ffermydd Gwartheg a Defaid

e-ddysgu: Lles Pobl, Anifeiliaid a Lle

e-ddysgu: Uned Orfodol: Datblygu Sgiliau Arwain a Sgiliau Pobl ar gyfer Busnes Llwyddiannus

e-ddysgu: Diogelu a Gwella Ecosystemau Fferm

Lansiwyd un gyfres o fodiwlau E-ddysgu achrededig newydd ar BOSS: Trosi i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cyflwyniad i Ffermio Cynaliadwy. O'r 6 modiwl yn y gyfres, mae 3 ohonynt yn dilyn y thema Busnes.

Agrigôp



Mae 5 cyfarfod Agrigôp wedi cymryd lle



28 o fynychwyr yn y cyfarfodydd Agrigôp



14 awr o gyfarfodydd Agrigôp

Bu grwpiau a fu'n cyfarfod yn ystod y cyfnod yn canolbwyntio ar y canlynol:



Ymweld â ffermwr llaeth sy'n cynhyrchu lloi Wagy. Trafodwyd strwythurau a phrosesau cadwyn gyflenwi biff, i barhau i ddatblygu perthnasau ar draws busnesau. Roedd dealltwriaeth bersonol o werthu uniongyrchol yn rhan werthfawr o'r daith, gydag eglurhad llawn o brofiad y fferm o werthu llaeth mewn peiriant gwerthu.



Ymweliad â Choed Wernog - digwyddiadau a chysiau. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r sylfaen cwsmeriaid a'u strategaeth farchnata.



Bu'r grŵp yn trafod ac yn dadansoddi eu busnes dros gyfnod y Nadolig, Buont yn trafod heriau, prisiau, costau, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.

Hyfforddiant Achrededig



Cefnogwyd 31 unigolyn o 29 busnes gwahanol, gan gwblhau 34 o gysiau hyfforddiant.

Darparwyd 1233 awr o hyfforddiant, a'r cysiau mwyaf poblogaidd oedd:

Cwrs	Unigolion a gefnogwyd	Oriau Hyfforddiant a ddarparwyd
Cymorth Cyntaf yn y Gweithle mewn Argyfwng	15	104
Cadw llyfrau	7	42
Cynllunio a datblygu busnes	5	54

Cefnogwyd unigolion gyda'r nodweddion Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel a ganlyn:

Nodweddion Cynllun Ffermio Cynaliadwy	Unigolion a gefnogwyd
Cydnherth a Chynhyrchol	18
Lles pobl, anifeiliaid a lle	15

Adborth:

Cynllunio a Datblygu Busnes: "Byddaf yn defnyddio'r cynllun gweithredu busnes i sicrhau fy mod yn cymryd y camau angenrheidiol i baratoi ar gyfer y tymor sydd i ddod. Byddaf yn dilyn trywydd newydd o ran trwyddedu ar gyfer fy safle i roi cyfle i mi dyfu fy musnes dros y blynyddoedd nesaf."

Cymorth Cyntaf yn y Gweithle mewn Argyfwng: "Roedd yn gwsr da iawn ac roedd y tiwtor yn amlwg yn wybodus iawn, ac wedi teilwra'r cwrs i ofynion y cyfranogwyr."

Digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol



6

Digwyddiad

182

o fynychwyr

Roedd pynciau'n cynnwys: Ymdrin â heriau ariannol mewn busnesau defaid a gwartheg. Rheoliadau newydd ar gyfer storio slyri – A ydych chi'n barod?

Adborth: "Mae'n bwysig mynychu'r digwyddiadau hyn er mwyn cofio bod cymorth ar gael i ni."

